# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (254)

### Dyddiad: Dydd Mercher, 28 Chwefror 2007

Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma.

### 2.00pm<br>Eitem 1: Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

.....................................

### 2.34pm<br>Eitem 2: Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf ac eithrio cwestiynnau 6,7 ac 8 a dynnwyd yn ôl. Cafodd cwestiwn 9 a 10 eu grwpio.

.....................................

### 3.18pm<br>Eitem 3: Cynnig i Gymeradwyo The Plant Protection Products (Amendment) Regulations 2007 o dan Reol Sefydlog 25 adran 3

**NDM3494 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

1. Yn cymeradwyo’r rheoliadau drafft, The Plant Protection Products (Amendment) Regulations 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Chwefror 2007; a
2. Yn nodi’r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Chwefror 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 0 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………………

## 3.19pm
## Eitem 4: Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 i Brif Weinidog Cymru

**NDM3495 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn ac o dan Deddf Plant a Mabwysiadu 2006 ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny a ddirprwyir i'r Prif Weinidog ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidogion Cynulliad priodol ac i staff.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 0 | 43 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………………

## 3.20pm
## Eitem 5: Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Hapchwarae 2005 i Brif Weinidog Cymru

**NDM3496 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol ag adran 62 (1) (b) o Ddeddf

Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn Neddf Hapchwarae 2005, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 0 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

……………………………….

## 3.23pm
## Cynnig i ohirio Rheolau Sefydlog er mwyn cyflwyno'r cynnig o dan Eitem 6

**NDM3516 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheolau Sefydlog 37.5 a 37.6:

Yn gohirio Rheol Sefydlog 6.13 i ganiatáu i'r cynnig ddirprwyo swyddogaethau a gynhwysir yn Neddfau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NDM3517) a gyflwynwyd ddydd Mercher 28 Chwefror 2007 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 28 Chwefror 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 0 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

……………………………….

## 3.24pm

# Eitem 6: Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 a Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i Brif Weinidog Cymru

**NDM3517 Jane Hutt (Vale of Glamorgan)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn ac o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 i Brif Weinidog Cymru, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo'n briodol, i Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac i staff.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 0 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

....................................

## 3.25pm
## Eitem 7: Cynnig i gymeradwyo newidiadau yng Nghyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn ystod y flwyddyn

**NDM3499 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 21.14, yn mabwysiadu cyllideb ddiwygiedig 2006-07 ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, fel y'i cyflwynwyd yn y tabl, "Cyllideb ddiwygiedig Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar gyfer 2006-07", a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 20 Chwefror 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………………

## 3.27pm
## Eitem 8: Cynnig i gymeradwyo newidiadau yn y Prif Grwpiau Gwariant yn ystod y flwyddyn

**NDM3500 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)**

Bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 21.13, yn cymeradwyo’r newidiadau i’r Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2006-07, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ddydd Mercher 21 Chwefror.

Gosodwyd y tablau isod yn y Swyddfa Gyflwyno a’u e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 21 Chwefror.

Dengys Tabl 1 y darpariaethau diwygiedig a gynigir ar gyfer y Prif Grwpiau Gwariant gan roi ystyriaeth i drosglwyddiadau i Adrannau'r Llywodraeth, ac ohonynt, ac mae’n dangos y dadansoddiad a gynigir ar gyfer y ddarpariaeth dwyn-ymlaen ac Arian Wrth Gefn yn ôl Prif Grwp Gwariant.

Dengys Tabl 2 y symudiadau rhwng dyraniadau PGG a, thrwy hynny, Cyllidebau terfynol PGG am y flwyddyn ariannol 2006-07.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………………

## 3.36pm
## Eitem 9: Dadl am Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Mesur Iechyd Meddwl

**NDM3498 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 6.6, yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Mesur Iechyd Meddwl a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

...................................

## 4.28pm
## Eitem 10: Dadl fer

**NDM3493 Tamsin Dunwoody (Preseli Sir Benfro):**

Gwleidyddion: Gwehilion a Gweilch ysglyfaethus neu Gwroniaid a Gwrol ryfelwyr.

...................................

## Daeth y cyfarfod i ben am 4.49pm

...................................

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 6 Mawrth 2007

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**